# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 13 Chwefror 2026 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 18 Chwefror 2026 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM**<br><br>Cyflwynir y Daflen hon fel penderfyniad brys, yn unol â rhan 14.15.2 o'r Cyfansoddiad, y dylid ei heithrio o'r drefn galw i mewn er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn medru cwblhau y cytundeb o fewn amserlen a ddynodwyd. Derbyniwyd cytundeb Cadeirydd Pwyllgor Craffu Gofal ei fod yn cytuno iddo fod yn fater brys a bod y penderfyniad a gynigir yn un rhesymol dan yr amgylchiadau. | 18 Chwefror 2026 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Paul Rowlinson, Aelod Cabinet dros Tai ac Eiddo

**PWNC**: Pryniant Y Canondy, Ffordd Gwynedd , Bangor

**PENDERFYNIAD –** I awdurdodi pryniant Y Canondy, Bangor a ddangosir wedi ei amlinellu'n goch ar y cynllun ynghlwm, a hynny ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Y Cynghorydd Paul Rowlinson |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Lowri Roberts – Pennaeth Cynorthwyol Tai ac Eiddo |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 13:02:2026 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | Paul Rowlinson |

**Pwnc : Pryniant Y Canondy, Ffordd Gwynedd , Bangor**

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

I awdurdodi pryniant Y Canondy, Bangor a ddangosir wedi ei amlinellu'n goch ar y cynllun ynghlwm, a hynny ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Gweithredu Tai (CGT) gyda'r nod o weithio i sicrhau fod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon sy'n fforddiadwy, ac yn gwella ansawdd bywyd, yn unol ag un o brif feysydd blaenoriaeth y Cyngor.

Byddai prynu Y Canondy yn galluogi'r Cyngor i drosi'r eiddo i ddarparu 9 uned byw, gan adleoli 9 aelwyd o lety argyfwng i lety trosiannol "*meanwhile*", a rhoi cyfle i'r aelwydydd hynny gael budd o gartrefi hunangynhaliol sefydlog, tra'n aros am gynnig o lety parhaol.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Ar hyn y bryd, mae oddeutu 130 o aelwydydd wedi eu cartrefu mewn Llety Argyfwng megis darpariaeth gwely a brecwast neu westai preifat yn ardal Arfon. Mae cost sylweddol i ddibyniaeth ar ddarpariaeth gwely a brecwast a gwestai, ac nid yw llety o'r fath bob amser yn cynnig cyfleusterau sylfaenol i'r preswylwyr. Tra bo cynlluniau ar y gweill gan yr Adran Tai ac Eiddo i ddatblygu Llety Argyfwng pwrpasol yn Ninas Bangor, mae dyhead cysylltiedig i ddatblygu unedau trosiannol (llety am gyfnod o hyd at ddwy flynedd fel cam ymlaen o Lety Argyfwng) er darparu elfen o sefydlogrwydd i aelwydydd tra'u bod yn disgwyl am gynnig o lety parhaol trwy'r gyfundrefn tai cymdeithasol. Byddai darpariaeth o'r fath yn galluogi'r gwasanaeth digartrefedd i ddarparu cefnogaeth i'r preswylwyr lle bo angen, gyda'r nod o arfogi'r preswylwyr gyda'r sgiliau angenrheidiol er mwyn eu galluogi i gynnal tenantiaeth ar dŷ cymdeithasol pan gynigir cartref parhaol iddynt. Byddai'r Cyngor hefyd yn elwa o leihad cysylltiedig mewn costau lletya.

Yn y gorffennol mae adeilad y Canondy wedi cartrefu Oriel ac Amgueddfa, ac yn fwy diweddar ysgol annibynnol, ond mae'r adeilad rhestredig yn wag ac yn segur ers nifer o flynyddoedd bellach, gyda'i gyflwr yn dirywio. Byddai prynu ac ail bwrpasu'r eiddo ar gyfer dibenion preswyl yn unol â'r hawl cynllunio sydd eisoes wedi ei gymeradwy yn galluogi'r Cyngor i ddarparu naw o gartrefi o fewn tafliad carreg i gyfleusterau a busnesau canol y ddinas, tra'n gwarchod adeilad rhestredig amlwg yng nghanol y ddinas.

Mae hawl cynllunio wedi ei gymeradwyo i drosi'r eiddo yn 9 uned byw hunangynhaliol ( 6 x uned 1 ystafell wely a 3 x uned 2 ystafell wely) ac ar sail yr archwiliadau a'r gwaith dichonoldeb sydd wedi ei gwblhau, ni rhagwelir y bydd unrhyw rwystrau ymarferol na chostau annisgwyl yn gysylltiedig â'r gwaith o drosi'r safle ar gyfer y defnydd bwriedig.

Mae cadarnhad o'r ffynonellau cyllidol ac achos dros brynu wedi ei amlygu yn Atodiad 1 sydd wedi ei eithrio rhag ei gyhoeddi oherwydd natur fasnachol sensitif y cynnwys.

Nid oes bwriad i dalu mwy na gwerth y farchnad am yr eiddo.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Dim.

**Prif Swyddog Cyllid:** “Rwyf yn fodlon fod y ffynonellau ariannu ar gyfer y cynllun hwn wedi cael eu hadnabod ac y bydd gwireddu’r cynllun yn cynnig arbedion ariannol yn ogystal â llety addas, a bydd yr Adran Gyllid yn parhau i gefnogi’r Adran Tai ac Eiddo.”

**Swyddog Monitro:** Dim i’w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Aelod/au Lleol:**

**Y Cynghorydd Nigel Pickavance –** Rwy'n cefnogi'r prosiect hwn. Mae hwn yn ddilyniant hanfodol i denantiaid Glyn House ac rwy'n gobeithio y bydd y prosiect yn llwyddiant mawr.

**Y Cynghorydd Dylan Fernley -** Yr wyf yn llwyr gefnogi'r cynnig hwn i greu llety o ansawdd da i helpu i liniaru'r argyfwng tai sy'n effeithio ar lawer o bobl leol.

**These are the notes referred to on the following official copy**

The electronic official copy of the title plan follows this message.

Please note that this is the only official copy we will issue. We will not issue a paper official copy.

This official copy was delivered electronically and when printed will not be to scale. You can obtain a paper official copy by ordering one from HM Land Registry.

This official copy is issued on 24 October 2025 shows the state of this title plan on 24 October 2025 at 10:13:36. It is admissible in evidence to the same extent as the original (s.67 Land Registration Act 2002). This title plan shows the general position, not the exact line, of the boundaries. It may be subject to distortions in scale. Measurements scaled from this plan may not match measurements between the same points on the ground.
This title is dealt with by the HM Land Registry, Wales Office .

**Dyma'r nodiadau y cyfeirir atynt ar y copi swyddogol canlynol.**

Mae'r copi swyddogol electronig o'r cynllun teitl yn dilyn y neges hon.

Sylwch mai hwn yw'r unig gopi swyddogol a ddarparwn. Ni fyddwn yn darparu copi swyddogol papur.


Anfonwyd y copi swyddogol hwn yn electronig a phan gaiff ei argraffu ni fydd wrth raddfa. Gallwch gael copi swyddogol papur trwy archebu un o Gofrestrfa Tir EF.

Mae'r copi swyddogol hwn a gyhoeddir ar 24 Hydref 2025 yn dangos sefyllfa'r cynllun teitl hwn ar 24 Hydref 2025 am 10:13:36. Mae'n dderbyniol fel tystiolaeth i'r un graddau â'r gwreiddiol (adran 67 Deddf Cofrestru Tir 2002). Mae'r cynllun teitl hwn yn dangos safle cyffredinol, nid union linell, y terfynau. Gall fod gwyriadau yn y raddfa. Mae'n bosibl na fydd mesuriadau wedi eu graddio o'r cynllun hwn yn cyfateb â mesuriadau rhwng yr un pwyntiau ar y llawr.
Gweinyddir y teitl hwn gan Gofrestrfa Tir EF Swyddfa Cymru.

HM Land Registry
Official copy of title plan

Title number **CYM425439**
Ordnance Survey map reference **SH5872SW**
Scale **1:1250**
Administrative area **Gwynedd**

©Crown Copyright. Produced by HM Land Registry.
Reproduction in whole or in part is prohibited without the prior written permission of Ordnance Survey. Licence Number AC0000851063.




**This official copy is incomplete without the preceding notes page.**
**Mae'r copi swyddogol hwn yn anghyflawn heb y dudalen nodiadau flaenorol.**